

Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg (Dirybudd)

Ward Cynnydd a Dinas, Uned
Ablett, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21
Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	2
2.	Crynodeb o'n canfyddiadau.....	4
3.	Yr hyn a ganfuom.....	6
4.	Beth nesaf?.....	9
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	10
6.	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	11
7.	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	12
8.	Atodiad C – Cynllun gwella	13

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Uned Ablett ar 20 a 21 Tachwedd 2017. Canolbwyntiodd yr ymweliad ar ddwy ward: Cynnydd a Dinas. Diben yr ymweliad oedd asesu a yw'r uned yn rheoli risg i gleifion yn briodol. Roedd hyn mewn ymateb i nifer gynyddol o ddigwyddiadau yn yr uned a gofnodwyd yn ystod y misoedd blaenorol. Arolygwyd Uned Ablett ddiwethaf gan AGIC ym mis Mehefin 2014¹.

Uned Ablett

Mae Uned Ablett (yr uned) yn adeilad ar wahân ar safle Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, bedair milltir i'r de o'r Rhyl.

Mae pedair ward yn yr uned:

- Cynnydd – ward adsefydlu dan glo ag wyth gwely (gydag ystafell Adran 136 ynghlwm wrthi)
- Dinas – ward 20 gwely ar gyfer dynion a merched
- Tegid – ward deg gwely ar gyfer pobl hŷn
- Tawelfan – ar gau ar hyn o bryd

Sut y gwnaethom ni hyn?

Roedd y tîm yn cynnwys dau aelod o staff AGIC a dau adolygydd cymheiriaid nyrso iechyd meddwl.

Canolbwyntiodd y tîm ar ddwy ward yn ystod yr ymweliad hwn, sef wardiau Cynnydd a Dinas.

Cynhaliwyd yr adolygiad dros nos/yn gynnar yn y bore yn ogystal â diwrnod llawn, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut roedd risg yn cael ei rheoli, gan archwilio'n

¹ Gweler: <http://gov.wales/docs/hiw/inspectionreports/Ablett%20Unit%20-%20Inspection%20-%20June%202014%20-%20Letter%20-%20Management%20Letter.pdf>

benodol bolisïau, ymarfer, dogfennau gofal cleifion, trefniadau diogelu, y gweithlu a llywodraethu.

2. Crynodeb o'n canfyddiadau

Ar y cyfan, canfuom nad oedd amgylchedd y ddwy ward y gwnaethom ymweld â nhw'n addas i'r diben. At ei gilydd, rydym yn credu bod nifer o'r problemau y gwnaethom eu nodi yn ystod ein harolygiad yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Pryderus hefyd oedd nodi bod rhai o'r problemau y gwnaethom eu canfod yn ystod yr arolygiad hwn hefyd yn amlwg yn ystod ein hymweliad diwethaf ym mis Mehefin 2014, er i'r bwrdd iechyd lunio cynllun gweithredu clir² mewn ymateb i'r ymweliad hwnnw, gan nodi y byddai'r problemau hyn yn cael eu datrys. Dyma'r ffactorau allweddol a wnaeth lywio ein barn am y ddwy ward hyn:

- nid oedd lleoliad y brif swyddfa ar ward Dinas yn caniatáu arsylwadau effeithiol ar y grŵp cleifion
- roedd cynllun y coridorau a manau dall cysylltiedig ar ward Dinas yn golygu ei bod yn anodd iawn arsylwi'n effeithiol ar y cleifion
- nid oedd system galw nyrsys yn ystafelloedd gwely cleifion ar ward Dinas
- nid oedd paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd cleifion ar ward Dinas, gan olygu y byddai'r staff yn aflonyddu ar glaf drwy'r nos pe bai'n destun arsylwadau rheolaidd
- roedd angen ailwampio'r ystafelloedd ymolchi ar ward Dinas, gan gynnwys addasu lleoliad y larwm galw nyrsys nad oedd

² Gweler: <http://gov.wales/docs/hiw/inspectionreports/Ablett%20Unit%20-%20Inspection%20-%20June%202014%20-%20Action%20Plan.pdf>

mewn lleoliad priodol

Ar ward Cynnydd roedd problemau ynghylch lleoliad yr ystafell Adran 136 – pan oedd yn cael ei defnyddio, nid oedd yn caniatáu mynediad diogel at yr ystafell driniaeth a oedd hefyd yn gweithredu fel y fferyllfa ar gyfer y ward. Yn aml, pan oedd angen i'r staff fynd i'r ystafell driniaeth bu'n rhaid iddynt i bob pwrpas adael ward Cynnydd gan effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Ar 20 Tachwedd gyda'r nos dim ond aelodau staff gwrywaidd a oedd yn gweithio, er bod dau glaf benywaidd wedi'u derbyn ar ward Cynnydd – roedd hyn yn amhriodol ac ni ddylai ddigwydd.

Roedd yn amlwg, ar ôl craffu ar nifer o gynlluniau gofal, fod diffyg ymgysylltu â chleifion yn y broses cynllunio gofal, gyda rhywfaint o'r iaith yn rhy dechnegol.

Er gwaethaf y problemau niferus ynghylch yr amgylchedd, roedd staff ar lefel rheolwyr y ward yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Canfuom fod y dogfennau gofal cleifion newydd a oedd yn cael eu treialu ar ward Cynnydd yn gweithio'n dda, gan leihau maint y gwaith papur ar gyfer staff. Canfuom hefyd fod proses y cyfarfod gofal aciwt a oedd yn cael ei defnyddio ar ward Dinas yn enghraifft dda o gyfathrebu effeithiol a chynllunio llwybr claf.

Canfuom nad oedd gan y staff ar ward Dinas ddealltwriaeth glir o arsylwadau ysbeidiol, ac nid oedd rhai amserau wedi'u nodi'n benodol ar y taflenni arsylwi.

3. Yr hyn a ganfuom

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom rywfaint o feysydd o arfer nodedig, ac amlinellir y rhain isod:

Uned gyfan

- Roedd yr holl staff y gwnaeth y tîm arolygu gyfarfod â nhw'n ymgysylltu â'r broses arolygu.
- Gwnaeth y tîm arolygu nodi dull cymhellol, brwdfrydig a gofalgar y staff ar y wardiau, ac arsylwi ar berthynas dda rhwng y staff a'r cleifion.
- Roedd rheolwyr ar lefel y ward yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth gyda chanlyniadau cadarnhaol i gleifion yn gadarn mewn cof.

Ward Dinas

- Nododd y tîm fod proses y cyfarfod gofal aciwt sydd ar waith yn enghraifft dda iawn o gyfathrebu effeithiol a'i bod yn helpu wrth gynllunio llwybr cleifion.

Ward Cynnydd

- Canfu'r tîm fod y dogfennau gofal cleifion a oedd yn cael eu treialu ar y ward, a ddyluniwyd i leihau maint y gwaith papur y mae angen i staff ymdrin ag ef, yn gweithio'n dda yn ôl pob golwg.
- Roedd y tîm yn teimlo y dylai'r staff gael eu canmol am y gwaith o ailaddurno a phersonoli'r ward.

Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad canfuom hefyd arferion peryglus mewn rhai mannau, yn bennaf mewn perthynas ag amgylchedd y ward, gan olygu nad ydym yn credu bod y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw'n addas i'r diben ar hyn o bryd. Mae'n destun pryder bod rhai o'r problemau a ganfuwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn adlewyrchu'r rheini a ganfuwyd yn ystod ein harolygiad diwethaf ym mis Mehefin 2014. Mae'r problemau sydd wedi dylanwadu ar ein barn wedi'u hamlinellu isod:

Ward Dinas

- Nid oes system galw nyrsys yn ystafelloedd gwely'r cleifion, ac nid oedd yn hawdd i staff yr uned arsylwi ar rai ystafelloedd gwely. Gallai'r broblem hon o bosibl gynyddu'r perygl i ddiogelwch cleifion pe bai digwyddiad ar y ward. Ar ben hynny, roedd hyn yn broblem a ganfuwyd yn ystod ein harolygiad ym mis Mehefin

2014 a nodwyd yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd y byddai'n cael ei datrys erbyn mis Medi 2014.

- Roedd cynllun y coridorau niferus a'r manau dall cysylltiedig yn golygu ei bod yn anodd iawn arsylwi ar gleifion yn effeithiol.
- Nid oedd paneli arsylwi priodol ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion, sy'n golygu yr aflonyddwyd ar rai cleifion bob 15 munud gyda'r nos wrth i'r staff gwblhau arsylwadau, ac yr aflonyddir ar yr holl gleifion o leiaf bob awr. Nid ydym yn credu bod hyn yn briodol.
- Mae angen ailwampio'r ystafelloedd ymolchi – nid oedd y larwm galw nyrsys yn yr ystafell ymolchi mewn man diogel ac nid oedd llenni'r gawod yn gywir o ran maint, gyda bwlbwch rhyngddynt a chiwbicl y gawod. Yn ogystal, roedd lloriau'r ystafell ymolchi wedi'u staenio, roedd y baddonau wedi'u marcio ac roedd paneli ar y baddonau'n llac.
- Roedd y swyddfa mewn lleoliad gwael i oruchwylio'r ward ac yn arbennig ardaloedd yr ystafelloedd gwely. Eto, gallai hyn gynyddu'r perygl i ddiogelwch cleifion pe bai digwyddiad ar y ward.
- Roedd cadair a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer arsylwadau un i un yn rhwystro mynediad at yr allanfa dân. Nid oedd hyn yn dderbyniol.
- Roedd y gerddi'n flêr a thywyll, ac roedd sbwriel ar y llawr. Roedd hyn hefyd yn broblem a ganfuwyd yn ystod ein harolygiad ym mis Mehefin 2014, ac eto roedd cynllun gweithredu'r bwrdd iechyd yn nodi y byddai'r broblem hon yn cael ei datrys erbyn mis Medi 2014.
- Roedd dau gynllun gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion yn hen, ac nid oeddent yn adlewyrchu eu lleoliad presennol. Roedd cynnwys un o'r cynlluniau'n rhy gyffredinol.
- Roedd gan un claf haint ar ei frest, ond nid oedd cynllun gofal wedi cael ei lunio.
- Roedd gwybodaeth helaeth yn ffeiliau'r cleifion (dogfennau), ac roedd yn anodd eu defnyddio.
- Nid oedd gwybodaeth cydsyniad y claf o fewn cynlluniau gofal cleifion ond yn nodi'r bobl na ellir rhannu gwybodaeth â nhw, gan awgrymu trwy oblygiad y gellir ei rhannu â phawb arall.
- Ymddangosai fod rheolwr y ward yn treulio cryn dipyn o amser yn trefnu niferoedd staff, gan ei rwystro rhag cyflawni dyletswyddau eraill y swydd.

- Nid oedd gan y staff ddealltwriaeth glir o arsylwadau ysbeidiol, e.e. 7,10 o funudau a oedd wedi'u disgrifio yn y polisi ar arsylwadau.

Ward Cynnydd

- Canfuom broblemau mewn perthynas â'r ystafell Adran 136³. Oherwydd cynllun ffisegol y ward, pan oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio nid oedd yn caniatáu mynediad diogel at yr ystafell driniaeth a oedd yn cynnwys darpariaeth fferyllol y ward.
- Am fod yr ystafell Adran 136 yn gysylltiedig â'r ward, pan oedd yn cael ei defnyddio, byddai staff o'r ward yn aml yn cael eu galw i'r ystafell, gan adael y ward yn brin o staff.
- Canfuom fod diffyg ymgysylltu â chleifion o ran y broses cynllunio gofal a diffyg llofnodion cleifion i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau gofal yn eu ffeil.
- Nid oedd yn ymddangos bod y cleifion wedi defnyddio'r holl iaith yn y cynlluniau gofal er i'r iaith gael ei phriodoli iddynt, er enghraifft, defnyddiwyd termau meddygol technegol.
- Bu achosion lle'r oedd staff gwrywaidd yn unig ar y ward yn ystod y sifft nos; gwnaeth tîm AGIC arsylwi ar hyn ar noson 20 Tachwedd, er bod dau glaf benywaidd yn derbyn llety ar y ward.

Yr Uned Lawn

- Archwiliwyd y dogfennau gofal ar gyfer claf Adran 136 a dderbyniwyd ar 20 Tachwedd gan y tîm, ac roeddent yn cynnwys llawer o wybodaeth a oedd yn ailadroddus iawn. Mae angen adolygiad i osgoi defnyddio amser nyrsio gwerthfawr i gwblhau dogfennau ailadroddus.

³ Mae Adran 136 yn rhan o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae hyn yn golygu bod gan yr heddlu'r pŵer i symud unigolyn o fan cyhoeddus, a mynd ag unigolyn i fan diogel, er enghraifft ysbyty. Cyfeirir at hyn yn aml fel ystafell Adran 136.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

6. Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Lleisiodd AGIC bryderon yn ystod yr arolygiad ynghylch nifer o broblemau amgylcheddol mewn perthynas â chynllun yr uned a gwaith cynnal a chadw'r uned (fel y rhestrwyd yng nghorff yr adroddiad hwn).</p>	<p>Roedd hyn yn golygu bod mwy o berygl i ddiogelwch cleifion.</p>	<p>Siaradodd AGIC â rheolwyr yr uned a'r rheolwyr cynnal a chadw/cyfleusterau pan oeddent ar y safle.</p>	<p>Problem heb ei datrys – er i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion cynlluniau ailwampio a oedd yn ceisio gwella amgylchedd yr uned, mae angen ystyried ymhellach sut y caiff diogelwch cleifion ei gynnal cyn unrhyw waith adnewyddu. Hefyd, dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw cynlluniau ailwampio'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r problemau cysylltiedig â chynllun yr uned.</p>

7. Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Ablett

Ward/uned(au): Dinas a Chynnydd

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Problemau wedi'u trin a'u trafod dan Atodiad A ac Atodiad C.				

8. Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Ablett

Ward/uned(au): Dinas a Chynnydd

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod paneli arsylwi digonol yn cael eu gosod yn ystafelloedd cleifion ar ward Dinas.	4.1 Gofal ag urddas	Fel rhan o'r gwaith gwella, caiff drysau newydd â phaneli arsylwi eu gosod yn ward Dinas.	Rheolwr Cymorth Busnes	31 Mawrth 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafelloedd ymolchi ar ward Dinas yn cael eu hailwampio.	4.1 Gofal ag urddas	Fel rhan o'r gwaith gwella, mae'r ystafelloedd ymolchi i fod i gael eu hailwampio.	Rheolwr Cymorth Busnes	31 Mawrth 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cymysgedd o ran rhywedd y staff yn briodol i'r cymysgedd o	4.1 Gofal ag urddas	Dan amgylchiadau eithriadol pan fo staff yn absennol ar fyr rybudd, gan adael y ward heb y cymysgedd priodol o ran	Rheolwr y Ward, Cynnydd	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ran rhywedd y cleifion ar y wardiau.		rhywedd, bydd rheolwr/nyrs ar ddyletswydd y ward yn adolygu'r staffio ar draws Uned Ablett i sicrhau bod cymysgedd priodol o ran rhywedd ar y ward. Bydd yr adran iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n comisiynu arfarniad o'r opsiynau o ran cael wardiau un rhyw ar gyfer y gwasanaeth adsefydlu.	Rheolwr Rhwydwaith Clinigol gwasanaethau ledled y sir	
Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu'n llwyr â chleifion mewn perthynas â'r broses cynllunio gofal.	4.2 Gwybodaeth cleifion	Bydd ward Cynnydd yn ymgysylltu â Caniad i wella'r gwaith o gynnwys cleifion yn y broses cynllunio gofal.	Nyrs Arweiniol	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sylw i'r gerddi blêr. Roedd hyn yn broblem a nodwyd yn ystod ein harolygiad ym mis Mehefin 2014, gyda chynllun gwella'r bwrdd iechyd yn nodi y byddai'n cael ei datrys erbyn mis Medi 2014.	4.1 Gofal ag urddas	Rhodddwyd sylw ar unwaith i'r gerddi gan yr adran ystadau yn dilyn yr ymweliad. Cynllun tymor hwy i gynnal y gerddi – bydd y Tîm Rheoli Canolog yn cyflogi garddwr / unigolyn cynnal a chadw ei hun.	Rheolwr Cymorth Busnes	Cwblhawyd 31 Mawrth 2018
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod system galw	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo	Cytunwyd i osod system galw nyrsys, a neilltuwyd cyllid o'r gronfa ddewisol.	Rheolwr Cymorth	31 Mawrth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
nyrsys yn cael ei gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar ward Dinas. Roedd hyn yn broblem a nodwyd yn ystod ein harolygiad ym mis Mehefin 2014, gyda chynllun gwella'r bwrdd iechyd yn nodi y byddai'n cael ei datrys erbyn mis Medi 2014.	iechyd a diogelwch	Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo, yn barod ar gyfer derbyn y system galw nyrsys. Cymerwyd camau gweithredu brys i liniaru risg. Rhoddir larymau personol i gleifion.	Busnes	2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lleoliad y larwm galw nyrsys yn yr ystafelloedd ymolchi ar ward Dinas yn briodol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Fel rhan o'r gwaith gwella, caiff larymau galw'r cleifion yn yr ystafelloedd ymolchi ar ward Dinas eu hadleoli.	Rheolwr Cymorth Busnes	31 Mawrth 2018
Gan fod cynllun ward Dinas yn effeithio ar allu'r staff i arsylwi ar gleifion, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir mesurau digonol ar waith i liniaru unrhyw risgiau i ddiogelwch cleifion.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Bydd y Tîm Rheoli Canolog yn cynnal ail-lansiad ffurfiol o'r Polisi Arsylwi ac Ymgysylltu Therapiwtig o fewn yr adran gyfan a fydd yn cynnwys yr holl dîm amlddisgyblaethol.	Nyrsys Arweiniol	28 Chwefror 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau tân yn cael eu cadw'n glir bob amser.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Caiff nodiadau atgoffa rheolaidd ynghylch yr angen i sicrhau bod drysau tân yn cael eu cadw'n glir eu cylchredeg ymhlith y staff ar draws yr uned. Parhau i fonitro cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol.	Metronau Cyfoes Rheolwyr Ward Metronau Cyfoes	Ar unwaith Cwblhawyd Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Caiff rhestr wirio ddyddiol y fetron ei datblygu i gynnwys gwiriad o'r drysau tân.</p> <p>Caiff amserlen ddeufisol gwirio iechyd a diogelwch ar droed ar gyfer yr adran ei chytuno a'i gweithredu.</p>	Arweinydd Iechyd a Diogelwch yr Adran	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu llunio ar gyfer cleifion sydd â phroblemau gofal iechyd corfforol.</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Caiff cynlluniau gofal a thriniaeth eu harchwilio (nyrsys arweiniol i ddatblygu offeryn archwilio) i sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn cael eu nodi, ynghyd ag ymyriadau, canlyniadau ac amserlenni priodol ac amserol.</p>	Nyrsys Arweiniol	31 Ionawr 2018 ac yna archwiliad misol wedi hynny
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau ar gyfer mynediad diogel at fferyllfa ar gyfer ward Cynnydd.</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Pan fo'r ystafell Adran 136 yn cael ei defnyddio, gall y troli meddyginiaeth gael ei symud i leoliad diogel ar ward Cynnydd a'i gloi yn erbyn y wal.</p>	Nyrs Arweiniol	Cwblhawyd
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau i sicrhau pan fo'r ystafell Adran 136 yn cael eu defnyddio nad yw hyn yn gadael ward Cynnydd</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Caiff chwe gweithiwr cymorth gofal iechyd eu cyflogi ar ffurf adnodd hyblyg i fodloni galw ac angen ledled yr uned, sy'n cynnwys yr ystafell Adran 136.</p>	Rheolwr Rhwydwaith Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn brin o staff.		Bydd ward Cynnydd yn uwchgyfeirio unrhyw broblemau staffio at y fetron/rheolwr gofal aciwt wrth iddynt godi.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gyffredin o arsylwadau ysbeidiol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Bydd y Tîm Rheoli Canolog yn cynnal ail-lansiad ffurfiol o'r Polisi Arsylwi ac Ymgysylltu Therapiwtig a fydd yn cynnwys yr holl dîm amlddisgyblaethol. Caiff hyn ei gwblhau erbyn 28 Chwefror 2018 ar gyfer staff yn Uned Ablett, a bydd yn cynnwys cyflwyniad o ganlyniadau'r archwiliad, gwelliannau a wnaed ers yr archwiliad, h.y. taflenni gwybodaeth i gleifion, a dealltwriaeth o'r polisi. Os bydd yn effeithiol, caiff y drefn ei hailadrodd ledled yr adran erbyn diwedd mis Awst 2018.</p> <p>Bydd y staff i gyd yn darllen a llofnodi'r daflen gadarnhau gan roi sicrwydd eu bod wedi darllen a deall y Polisi Arsylwi ac Ymgysylltu Therapiwtig – caiff hyn ei adolygu a'i fonitro trwy sesiynau goruchwyllo.</p>	<p>Nyrsys Arweiniol</p> <p>Nyrsys Arweiniol</p> <p>Rheolwr y Ward/Metron</p>	<p>28 Chwefror 2018</p> <p>28 Chwefror 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a ellir ei gwneud yn haws defnyddio dogfennau gofal.	3.5 Cadw cofnodion	Caiff clerciaid y ward eu hyfforddi mewn gweithdrefnau rheoli cofnodion cywir. Bydd yr adran yn adolygu arferion cyfredol ac yn cytuno ar safon ar gyfer ffeilio dogfennau gofal craidd.	Rheolwr Cymorth Busnes Arweinydd Academaidd Clinigol	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth o ran cydsyniad y claf mewn cynlluniau gofal cleifion yn ddigon eglur.	3.5 Cadw cofnodion	Caiff dogfen rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd well ei hymgorffori yn y broses dderbyn.	Rheolwyr Ward	28 Chwefror 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn gyfredol ac yn adlewyrchu eu lleoliad presennol.	3.5 Cadw cofnodion	Caiff cynlluniau gofal a thriniaeth eu harchwilio (nyrsys arweiniol i ddatblygu offeryn archwilio) i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion cyfredol defnyddwyr gwasanaeth a'u bod wedi'u llofnodi a'u dyddio. Caiff hyn ei ychwanegu at gynllun archwilio blynyddol yr adran fel archwiliad deufisol, a bydd yn dechrau ym mis Mawrth. Caiff canfyddiadau eu cyflwyno	Nyrsys Arweiniol Arweinydd Academaidd	31 Ionawr 2018 Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch lleol a chânt eu cyflwyno'n chwarterol gerbron tîm ansawdd a diogelwch yr adran.</p> <p>Bydd yr adran yn adolygu hyfforddiant cyfredol mewn perthynas â phennu risg cleifion er mwyn sicrhau y cymerir camau cymesur.</p>	<p>Clinigol</p> <p>Nyrsys Arweiniol</p>	Rhagfyr 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Swydd:

Gaynor Kehoe	Rheolwr Rhwydwaith Clinigol Canolog
Teresa Baker	Rheolwr Ward Dinas
Mark Jenkinson	Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Canolog
Steve McCabe	Rheolwr Cymorth Busnes Canolog
Karen Jowitt	Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn Canolog
Lisa Mitchell	Arweinydd Ansawdd a Diogelwch
Kathryn Thomas	Rheolwr Cymorth Busnes Canolog

Dyddiad:

10 Ionawr 2018